# Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Dyddiad:** 8 Mai 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh, Dirprwy Weinidog | Llafur | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Ymddiheuriadau**

Cynog Dafis

Huw Lewis

**Dirprwyadau**

Owen John Thomas yn dirprwyo dros Cynog Dafis

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant (AAH) |
| Derek Adams | Pennaeth, yr Is-adran Addysg Uwch |
| Keith Davies | Pennaeth, yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Andrew Felton | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Richard Daugherty | Cadeirydd Pwyllgor Llywio'r adolygiad (Prifysgol Cymru Aberystwyth) |
| Yr Athro John Furlong | Cyfarwyddwr yr adolygiad a chyd-awdur yr adroddiad (Prifysgol Caerdydd) |
| Yr Athro David Egan | Cadeirydd UCET Cymru (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd) |
| Dr Joan Netten | Prifysgol Memorial Newfoundland, Canada |

| | |
|---|---|
| Yr Athro Claude Germain | Prifysgol Quebec Montreal |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Catrin Redknap | Ymgynghorydd arbenigol y pwyllgor ar gyfer adolygu'r Iaith Gymraeg mewn Addysg |
| | |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig, Aelod o gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwyr Ysgol; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r Aelodau a oedd ganddynt unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant. Dywedodd y Cadeirydd a Jonathan Morgan ill dau eu bod yn aelodau o Lys, Prifysgol Cymru.

**Eitem Un: Adroddiad - 'Capasiti Ymchwil Addysgol yng Nghymru'**

***Papur: ELL 09-02(p.1)***

1. Siaradodd yr Athro Furlong gan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint. Pwysleisiodd y prif bwyntiau ym mhapur ELL 09-02(t.1). Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr a gwahoddodd yr Aelodau i wneud sylwadau. Codwyd y materion canlynol:

- Dywedodd y Gweinidog pa mor bwysig yw ystyried sut i wella materion sy'n gysylltiedig â'r seilweithiau a'r rhwydweithiau ymchwil yng Nghymru. Byddai'r Grp Cyswllt newydd yn canolbwyntio ar ddod o hyd i ffyrdd i gefnogi gwaith ymchwil, pennu meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr ymchwil ei hun ac asesu bylchau yn y ddarpariaeth. Roedd y strategaeth AU yn barod wedi gwneud argymhellion ar gyfer gweithio ar y blynyddoedd cynnar – gan i hwn fod yn fwlch amlwg yn y maes darpariaeth hwn. Byddai swyddog parhaol wedi'i leoli yn Adran Addysg a Hyfforddiant (AAH) Llywodraeth Cynulliad Cymru a fyddai'n delio'n benodol ag ymchwil addysgol.
- Byddai'r cylch gorchwyl drafft a luniwyd ar gyfer y Gr•p newydd yn ei alluogi i ganolbwyntio nid yn unig ar sefydlu meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil, gan ystyried y bylchau y teimlir sy'n bodoli yn y sylfaen wybodaeth bresennol, ond hefyd ar ystyried y ffordd orau o fynd ati i wella capasiti a seilwaith ymchwil. Byddai'n derbyn cefnogaeth benodol gan swydd newydd yn yr Adran Addysg a Hyfforddiant a chan secondiad arfaethedig ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth o'r sector AU.
- Roedd yr amserlen a awgrymwyd ar gyfer gweithredu yn rhagweld y byddai'r Gr^wp Cyswllt yn cael ei benodi yn ystod mis Gorffennaf a'r cyfarfod cyntaf ym mis Awst. Byddai penodi'r person ar secondiad yn digwydd yr un pryd, gyda'r swydd yn cael ei llenwi erbyn dechrau mis Hydref.
- Cyfeiriodd y Gweinidog at ei strategaeth ar gyfer addysg Uwch (Cyrraedd yn Uwch) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a dywedodd ei bod yn hanfodol nid yn unig i gefnogi ymchwil addysgol ond hefyd i asesu effaith yr ymchwil hwn ar bolisi addysgol. Byddai'r Gweinidog yn gwahodd CCAUC i adolygu'r fethodoleg ariannu gyfredol. Byddid yn ystyried cronfeydd cyllido newydd er mwyn hyrwyddo'r sylfaen ymchwil yn ogystal â chefnogi ac annog grwpiau ymchwil i ymgyrraedd at safonau uwch eto. Roedd y Gweinidog am gael tystiolaeth i helpu i fynd i'r afael â'r materion a bennwyd yn yr Adroddiad ar 'Gapasiti Ymchwil Addysgol yng Nghymru'.
- Dywedodd y cyflwynwyr eu bod yn falch fod y Gr•p Cyswllt wedi'i sefydlu ond pwysleisiwyd ganddynt fod arbenigwyr ymchwil yn gadael Cymru oherwydd bod gwell cyfleoedd am waith mewn mannau eraill – yn arwain at broblem fawr o ran capasiti.
- Mewn ymateb i gwestiwn am well cydlyniad a datblygiad staff ym maes ymchwil addysgol yng Nghymru, atebodd y cyflwynwyr trwy ddweud nad oedd sefydliadau AU wedi cymryd y mater o gapasiti ymchwil o ddifrif o ran datblygu staff. Os nad oedd sefydliadau'n rhan o'r Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY), fel sy'n wir am hanner sefydliadau Cymru, ni fyddai'r cymhelliant na'r cyllid ganddynt i ymgymryd ag ymchwil. Roedd capasiti ymchwil hefyd yn gydgysylltiedig ag ymchwil athrawon ym maes addysg. Roedd disgwyl i athrawon ddatblygu arbenigedd ymchwil, gydag ychydig o hyfforddiant, yn ychwanegol at eu dyletswyddau addysgu.
- Roedd capasiti ymchwil hefyd yn gysylltiedig ag ymchwil gan athrawon i faes addysg. Roedd disgwyl i athrawon fod yn ymchwilwyr hefyd, ac eto nid oeddynt yn cael eu datblygu ym maes arbenigedd ymchwil. Mewn ymateb i Adolygiad AU y Pwyllgor, nodwyd y dylid edrych ar Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol (HCA) a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)mewn modd holistaidd. Roedd HCA yn cymryd llawer o amser ac yn ddrud.
- Roedd yr aelodau wedi synnu nad oedd cysylltiad i'w weld rhwng ymchwil addysgol a pholisi cymdeithasol/seicoleg. Y gobaith fyddai i'r Gr•p Cyswllt ystyried y mater hwn a darparu arweiniad strategol. Dywedwyd wrth yr aelodau bod bwlch arwyddocaol wedi bod rhwng adrannau addysg ac

adrannau seicoleg yn sgîl y ffordd y dosbarthwyd cymhelliannau, rhagdybiaethau o ran hierarchaeth a statws – y rhain i gyd wedi arwain at lai o gydweithio.

- Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn clywed beth oedd barn academyddion o'r tu allan i Gymru am y gwaith ymchwil yng Nghymru. Cafodd yr Aelodau wybod fod ymchwilwyr penodol o ansawdd uchel yng Nghymru yn cael eu cydnabod (e.e. Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd). Ond, yn gyffredinol, ychydig o gydnabyddiaeth allanol a geid i weithgarwch ymchwil neu weithgareddau ymchwil yng Nghymru.
- Dywedodd yr Aelodau fod Cymru wedi cael rhai canlyniadau YAY da, yn ddiweddar ac yn y gorffennol. Cafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai hyn yn denu pobl i faes ymchwil mewn sefydliadau yng Nghymru. Dywedodd y cyflwynwyr mai gwaith anodd yw denu ymchwilwyr ôl-ddoethurol o safon ddigon uchel o'r DU. Roedd angen datblygu staff presennol a darparu rhwydweithiau ledled Cymru.
- Gofynnodd un aelod pam fod sefydliadau megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun hefyd yn comisiynu ymchwil yn rheolaidd gan sefydliadau y tu allan i Gymru. Y tu allan i Brydain Fawr roedd y syniad o ymchwil wedi cael ei ddatblygu'n dda ond nid oedd hyn yn digwydd o fewn Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) Dywedodd y Gweinidog fod Prifysgol Aberystwyth, pan adolygwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol ym 1997/98, wedi cydweithio gyda Chyngor Ymchwil Addysg yr Alban. Ychwanegodd y Gweinidog fod gwahanol fathau ar ymchwil yn cael eu comisiynu. Er enghraifft, cynhaliodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru waith a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth, ac mewn partneriaeth ag Estyn, ar recriwtio a chadw athrawon a chyfrannodd at raglenni ymchwil Cyngor Ymchwil yr Alban.
- Gofynnodd yr Aelodau pa effaith yr oedd cystadleuaeth yn ei chael ar ymchwil addysgol yng Nghymru. Dywedodd y cyflwynwyr fod dwy adran wedi cael gradd 5* yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil a bod angen adeiladu ar y canolfannau rhagoriaeth hyn. Roedd angen ymchwilio i'r gwaith o reoli cydweithio a chystadleuaeth. Serch hynny, roedd natur gystadleuol asesu ymchwil yn cael effaith andwyol ar gapasiti ar hyn o bryd. Cyfeiriodd y Gweinidog at ei strategaeth AU a siaradodd am greu cyfleoedd er mwyn i Sefydliadau AU allu cydweithio, nid yn unig ym maes addysg, ond hefyd ar gyfer ymchwilwyr unigol o safon nad oeddynt wedi cael eu hymgorffori yn y bidiau Asesu Ymchwil.
- Ymatebodd y Gweinidog trwy gyfeirio at ei strategaeth AU ac i'r cyllido a oedd yn cael ei awgrymu ynddi ar gyfer cefnogi cydweithio rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a'r 'pocedi' ynysig hynny o ragoriaeth ymchwil. Roedd y Gweinidog wedi gwahodd sefydliadau i gydweithio a chyflwyno cynigion iddi.
- Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod sut y gellid datblygu cysylltiadau rhwng Cymru a Lloegr. Dywedodd y cyflwynwyr wrth y Pwyllgor fod Fforwm Ymchwil Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu fel fforwm i gyllidwyr, a oedd yn cynnwys elusennau mawr a chysylltiadau rhanbarthol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Roedd cyfle hefyd i fanteisio ar rywfaint o weithgarwch ymchwil yn Lloegr. Er enghraifft, gellid defnyddio'r prosiect EPPI-Centre er mwyn canolbwyntio ar fater Cymreig.
- Gofynnodd yr aelodau faint o staff ymchwil addysgol sydd yng Nghymru a sut oedd y nifer yn cymharu ag adrannau yn yr Alban a Lloegr. Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd oedd â'r nifer uchaf o staff yn gweithio ym maes ymchwil addysgol, gyda 50 aelod o staff yn yr Ysgol Addysg. Serch hynny, nid oedd yr Ysgol wedi cofrestru dan yr YAY. Yn yr Alban roedd cryn resymoli wedi digwydd nes creu chwe adran. Yng Ngogledd Iwerddon roedd pedair adran. Yng Nghymru, roedd un adran ar ddeg, a oedd yn brysur ym maes addysg athrawon, ymchwil addysgol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus(DPP).
- Cyfeiriodd y cyflwynwyr at arfarniad y Cyngor Addysgu Cyffredinol o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Roedd yr arwyddion yn galonogol: o'r cylch cyllido cyntaf byddai 150 o ysgoloriaethau ymchwil addysgu ar gael: o'r ail gylch byddai 250 person arall yn gallu manteisio ar gyfleoedd DPP. Roedd angen cael mwy o gyfleoedd i alluogi'r proffesiwn dysgu i ymwneud ag ymchwil addysgol.

1. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad i'r cyfarfod.

- **Eitem Dau: Adolygu Polisi – yr Iaith Gymraeg mewn Addysg – Profiad o addysgu dwyieithog mewn gwledydd eraill**

***Papurau: ELL 09-02(p.2) a ELL 09-02(p.3)***

2.1 Defnyddiodd Dr Joan Netten, Yr Athro Claude Germain a Nick Gardner ill tri gyflwyniadau PowerPoint i amlygu materion penodol a gafwyd yn eu papurau. Gwahoddwyd yr Aelodau wedyn gan y cadeirydd i ofyn cwestiynau. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch system drwytho Gwlad y Basg ac a oedd rhieni yn cael dewis eithrio o'r system. Roedd pedwar cyfnod newid: 6 oed, 12 oed, 16 oed ac wrth fynd i brifysgol. Nodwyd mai un o nodweddion hyfforddiant galwedigaethol oedd yr anhawster i gael grwpiau addas o fyfyrwyr at ei gilydd. Gofynnodd un Aelod ar ba gam yr oedd rhieni'n dewis y system ysgol cyfrwng iaith y Basg. Yn gyffredinol, dywedwyd wrth yr Aelodau fod rhieni'n dewis i'w plant dderbyn addysg trwy gyfrwng iaith y Basg o dair oed, yr oed pan yw addysg amser llawn yn cychwyn. Nid yw addysg yn orfodol hyd nes y bo'r plentyn yn 6 oed, ond yn ystod y deg i bymtheng mlynedd diwethaf y duedd yw i blant ddechrau yn 3 oed. Daeth mewnfudo o rannau eraill o Sbaen i ben ym 1980 yn sgîl yr argyfyngau gydag olew. Serch hynny, teimlid y byddai'n rhaid i Lywodraeth Gwlad y Basg ystyried y mewnfudwyr tramor o Dde America a Gogledd Affrica sy'n symud i mewn.
- Roedd yr Aelodau am glywed am gefndir dysgu iaith trwy drwytho yng Nghanada a gofynnwyd am y gwahaniaeth rhwng ysgolion trwytho ac ysgolion cyfrwng Ffrangeg. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Canada yn swyddogol yn wlad ddwyieithog ac 'roedd hyn yn hyrwyddo'r cysyniad o ddeuoliaeth ieithyddol. Roedd hyn yn un o'r rhesymau dros gael mwy o siaradwyr Saesneg i ddysgu mwy o Ffrangeg. Siaradwyr Ffrangeg oedd y rhan fwyaf o bobl ddwyieithog yng Nghanada, ac roeddynt yn dysgu Saesneg er mwyn gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o siaradwyr Saesneg ar hyn o bryd yn ddibynnol ar yr ysgolion am eu gwybodaeth o Ffrangeg. Rhagwelodd cynllun ffederal yn y 1960au y byddai 25% o bobl ifanc yn ddwyieithog. Uchelgais y Gweinidog Treftadaeth presennol (Canada) fyddai gweld 50 y cant o bobl ifanc Canada yn ddwyieithog erbyn 2010. Roedd ysgolion cyfrwng Ffrangeg mewn ardaloedd lleiafrifol yn cael eu gwarchod trwy siarter - roedd y system addysg gyda'r Ffrangeg yn iaith gyntaf yn system ar wahân. Ni allai siaradwyr Saesneg fynychu ysgolion lle roedd y Ffrangeg yn iaith gyntaf.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw wahaniaeth rhwng cymarebau athro disgybl rhwng y rhaglen Ffrangeg ddwys a'r Rhaglen Ffrangeg Graidd. Gofynnodd yr Aelodau am ba hyd oedd diddordeb y disgyblion yn parhau yn yr iaith Ffrangeg ar ôl dilyn y cwrs dwys. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd myfyrwyr yn dysgu pynciau trwy gyfrwng yr ail iaith am y chwe mis cyntaf. Roedd y myfyrwyr yn dysgu'r iaith trwy gemau a gweithgareddau a oedd yn seiliedig ar brosiectau. Ni fyddai unrhyw blentyn ar y math yma o gwrs yn aflwyddiannus gan fod plant yn dysgu eu hiaith eu 'hunain'. O ganlyniad, doedd dim angen gweithgareddau adferol ac nid oedd myfyrwyr yn rhoi'r ffidil yn y to. Roedd y cwrs yn cynnwys rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar weithgarwch er mwyn datblygu'r gallu i gyfathrebu'n dda. Gallai'r disgyblion gael cyfle i ddilyn dau bwnc arall yn yr ail iaith. Cynlluniwyd y rhaglen i fod yn gynhwysol ac nid yn ddetholus. Parthed y rhaglen drwytho, roedd rhieni a'u plant yn dewis y cwrs hwnnw.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch maint dosbarthiadau. Yng Nghanada, byddai dosbarthiadau cyfan yn derbyn y cwrs dwys. Roedd maint dosbarthiadau yng Ngwlad y Basg wedi gostwng: ychydig iawn o blant oedd yn mynychu ysgolion Model A gan nad oedd y galw gymaint. Serch hynny, roedd rhaid i Lywodraeth Gwlad y Basg gadw swyddi'n agored i siaradwyr Sbaeneg.

- Eglurodd y cyflwynwyr wrth y Pwyllgor nad oedd yn rhaid i lefel cymhwysedd athrawon ar gyfer dysgu Ffrangeg ail iaith trwy ddull dwys fod mor uchel â chymhwysedd athrawon sy'n dysgu Ffrangeg trwy drwytho. Nid oedd rhaid i athrawon egluro cysyniadau trwy gyfrwng yr ail iaith. Er mwyn i athrawon ddatblygu'r cymwyseddau, roedd ysgolion haf gyda chydran iaith ychwanegol, lleoliadau haf a datblygiad proffesiynol ar gael. Roedd arbenigwyr dysgu iaith y Basg wedi cael eu gosod mewn ysgolion Model A ond roedd hyn wedi dod i ben gan y cafwyd problemau gyda'r athrawon hyn yn integreiddio i weithgareddau cyffredinol yr ysgolion. Nid oeddynt yn weision sifil cyflawn. Roedd system gwlad y Basg yn barod wedi defnyddio athrawon iaith y Basg a oedd yn y system eisoes ac wedi cynnig cyrsiau hyfforddiant iaith tri mis iddynt – ac roeddynt yn cael tâl llawn amser.

- Mynegwyd diddordeb ynghylch a allai trwytho ar gyfer siaradwyr Saesneg a'r cyfyngiadau a roddwyd ar ysgolion Ffrangeg eu hiaith greu rhwystrau seicolegol trwy ddatblygu sgiliau ieithyddol ar wahân. Yn hanesyddol, nid oedd siaradwyr Saesneg a siaradwyr Ffrangeg yn cymysgu'n hawdd yng Nghanada ac roedd y ddaearyddiaeth yn cymhlethu'r sefyllfa. Teimlai rhai pocedi bychain o gymunedau lleiafrifol Ffrangeg eu hiaith dan fygythiad gan siaradwyr Saesneg trwy'r broses gymhathu, gan eu bod yn tueddu i golli'r iaith (Ffrangeg). Cryfhawyd yr ysgolion Ffrangeg eu hiaith gan eu bod yn cael eu gwarchod trwy siarter ond dibynnai llawer ar y lleoliad daearyddol. Ar hyn o bryd, roedd mwy o ethos o gyfeillgarwch rhwng y siaradwyr Ffrangeg a'r siaradwyr Saesneg; roedd ysgolion Ffrangeg eu hiaith a disgyblion ar raglenni trwytho erbyn hyn yn rhannu rhywfaint o'r cwricwlwm h.y. addysg gorfforol a cherddoriaeth. Nid oedd y cyflwynwyr yn credu fod ysgolion trwytho yn cyfrannu at deimladau negyddol, roeddynt yn gadarnhaol am eu bod wedi'u diogelu.
- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch effaith gymdeithasol system Addysg Gwlad y Basg sydd wedi'i chynllunio'n ganolog. Dywedwyd wrth y Pwyllgor ei fod yn anodd cael ffigurau uniongywir ar ddefnydd ieithyddol: nid oedd y cyfrifiad yn darparu llawer o wybodaeth. Roedd yr arolwg Cymdeithasol-ieithyddol wedi awgrymu bod pobl yn meddu ar fwy o wybodaeth am iaith y Basg a bod mwy o ddefnydd o'r iaith. Yn sicr roedd cynnydd wedi bod o ran trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu. Yn gyffredinol roedd pobl yn ymwybodol nad oedd y mesurau o fewn y system addysg yn ddigon i 'Fasgeiddio' cymdeithas. Wrth i'r plant dyfu byddent yn dod yn fwy ymwybodol o'r gwobrau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â defnyddio Sbaeneg. O ran trosglwyddo iaith yng Nghanada, nodwyd mai'r brif iaith fyddai Ffrangeg wrth i ddau siaradwr Ffrangeg briodi, a Saesneg pan fyddai dau siaradwr Saesneg yn priodi. Fodd bynnag, os oedd siaradwr Ffrangeg yn priodi â siaradwr Saesneg, tueddai'r brif iaith i fod yn Saesneg; os oedd siaradwr Ffrangeg yn priodi siaradwr Saesneg a oedd wedi derbyn hyfforddiant trwytho mewn Ffrangeg, yna Ffrangeg fyddai iaith y cartref. Roedd gan athrawon Ffrangeg craidd ddiddordeb mawr yn y rhaglen Ffrangeg ddwys gan fod cryn dipyn o hyblygrwydd yn perthyn iddi.
- Gofynnodd yr Aelodau am farn y cyflwynwyr ar y ffordd y dysgid ieithoedd yn y DU h.y. system heb fod yn ddwys o'i chymharu â system ddwys. Credai'r cyflwynwyr o Ganada fod y dull dwys yn llawer mwy effeithiol gan fod angen i sgiliau a galluoedd y disgyblion gyrraedd lefel lle gallent gyfathrebu. Teimlid fod y cyrsiau trwytho yn fwyaf llwyddiannus pan oeddynt yn ddwys ar y cychwyn. Teimlid fod y dull diferu (9-14 oed) yn wastraff ar adnoddau gan fod cymaint yn rhoi'r ffidil yn y to. Nid oedd unrhyw un mewn dosbarthiadau llawn hyd at radd deg yn rhoi'r ffidil yn y to (ar gyrsiau dwys). Roedd disgyblion fel petaent am ailddechrau dysgu Ffrangeg am eu bod yn gallu cyfathrebu fel dysgwyr annibynnol. Clywodd yr Aelodau fod rhai wedi bod yn galw yng Ngwlad y Basg am ddiddymu ysgolion Model A, ond teimlid fod angen gweld sut y gellid gwella effeithiolrwydd ysgolion Model A.
- Trafododd yr Aelodau oblygiadau strategaeth genedlaethol ar gyfer yr Iaith Gymraeg a'i hyrwyddo ar lefelau lleol. Teimlid ei bod yn briodol cael rhywfaint o anogaeth ar lefel genedlaethol. Ond yng

Nghanada awdurdodaeth ranbarthol oedd yn bodoli a dim ond trwy grantiau ariannol ayb. y gallai'r Llywodraeth Ffederal hyrwyddo'r iaith. Teimlid na fyddai rhai llywodraethau rhanbarthol, heb y math yma o anogaeth, yn rhoi cymaint o sylw i ddysgu Ffrangeg. Yng Nghanada y dull a ddefnyddid oedd peidio â gorfodi pobl i ddysgu ail iaith (Ffrangeg) ond rhoi cyfle/dewis i bobl ddysgu os dyna oedd eu dymuniad. Ar y cychwyn roedd rhai rhieni ychydig yn betrusgar i adael i'w plant ddysgu Ffrangeg, ac felly cynigwyd y rhaglen drwytho ymhellach ymlaen yn y system addysg. Serch hynny, roedd y system drwytho yn system ddethol, gan mai dim ond disgyblion galluog iawn a fyddai'n cael dilyn y rhaglen, tra bo'r rhaglen ddwys yn rhoi ail gyfle i ddisgyblion weld a allent ddysgu iaith arall.

- Gofynnwyd i'r cyflwynwyr a oedd problem yng Nghanada gyda chynhyrchu deunyddiau dysgu (ail iaith). Roedd y rhaglen astudiaeth Ffrangeg graidd genedlaethol yn cynnwys sawl dimensiwn ac, o ganlyniad, yn canolbwyntio gormod ar gyfieithu. Cafwyd problemau gyda'r rhaglen graidd wrth ddysgu cymwyseddau cyfathrebol ac felly newidiwyd cyfeiriad gan ddefnyddio dull a ganolbwyntiai ar themâu ac adnoddau. Gallai'r athro fynd â'r disgyblion i'r cyfeiriad yr oedd yn well ganddo ef/hi, ond byddai angen i'r athro fod wedi'i hyfforddi'n dda gan fod y dull yn gofyn am fethodoleg addysgu integredig. Mewn cyferbyniad, roedd oedolion a oedd yn dysgu iaith y Basg yn cael eu haddysgu trwy ddull a oedd yn seiliedig ar dasgau.
- Dywedodd y Gweinidog fod twf wedi bod yn yr ysgolion Model B a D yng Ngwlad y Basg. Roedd Model B yn amlwg yn fwy effeithiol na Model A wrth feithrin sgiliau iaith iaith y Basg, ond roedd model D yn amlwg yn fwy effeithiol na Model B. Roedd Model B yn effeithiol iawn yn darbwyllo rhieni i dderbyn swm rhesymol o addysg trwy gyfrwng iaith y Basg. Gwelwyd twf yn yr ysgolion Model D yn bennaf oherwydd y galw gan rieni a siaradai Sbaeneg.

2.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad gwerthfawr, gan eu bod wedi darparu persbectif rhyngwladol pwysig i'r adolygiad polisi.

**Eitem Tri: Cofnodion cyfarfod 2 Mai**

3.1 Oherwydd penwythnos G•yl y Banc, byddai cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y cyfarfod ar 22 Mai.

**Roedd angen nodi un papur:**

**Strategaeth ar gyfer Pobl H•n**

***Papur: ELL 09-02(p.4)***

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002**